**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

13 Mai 2024

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1. Mae angen y Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024 (“y Rheoliadau hyn”) i roi effaith gyfreithiol i'r trefniadau asesu ar gyfer darllen a rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â disgyblion sy'n mynychu ysgolion (heblaw am ysgol arbennig gymunedol a sefydlir mewn ysbyty) a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru ("yr asesiadau personol cenedlaethol").

2. Mae'r asesiadau personol cenedlaethol yn cymryd lle’r profion darllen a rhifedd ("y profion cenedlaethol") y rhoddir effaith gyfreithiol iddynt gan Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 ("Gorchymyn 2013").

3. Gwnaeth Rheoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Dirymu") ddarpariaeth drosiannol fel bod Gorchymyn 2013 yn parhau i weithio gyda'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn ystod y cyfnod y mae’n cael ei gyflwyno. Mae'r Rheoliadau Dirymu yn dirymu Gorchymyn 2013 ar 1 Medi 2024.

4. Mae'r asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu sefyll ar lein ac yn asesu'r un sgiliau â'r profion cenedlaethol. Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau o ran y ffordd y bydd yr asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu rhoi o'i chymharu â'r ffordd y mae’r profion cenedlaethol wedi cael eu rhoi-

    a. nid yw'r Rheoliadau hyn yn cynnwys gofyniad i'r pennaeth roi’r asesiadau personol cenedlaethol yn unol ag amserlen a bennir gan Weinidogion Cymru. Yn lle hynny, caiff y pennaeth benderfynu pryd yn y flwyddyn ysgol y bydd disgyblion yn sefyll yr asesiadau personol cenedlaethol,

    b. yn wahanol i Orchymyn 2013 mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y caiff y pennaeth ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion sefyll yr asesiadau personol cenedlaethol o leiaf unwaith mewn blwyddyn ysgol. Felly, mae’n bosibl y bydd yn ofynnol i ddisgybl sefyll yr asesiadau personol cenedlaethol fwy nag unwaith mewn blwyddyn ysgol,

    c. nid yw'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth lofnodi datganiad i'r perwyl bod yr asesiadau personol cenedlaethol wedi cael eu rhoi yn unol â darpariaethau erthygl 6 o Orchymyn 2013,

    d. nid yw'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol fonitro gweinyddiaeth yr asesiadau personol cenedlaethol, ac

e. nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymchwilio i unrhyw fater a atgyfeirir atynt o ganlyniad i unrhyw fonitro ar yr asesiadau personol cenedlaethol nac i gywiro canlyniadau fel y bo'n briodol.

5. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynllunio i leddfu'r baich ar ysgolion wrth roi’r asesiadau personol cenedlaethol ac i adlewyrchu'r arferion cyfredol mewn ysgolion.

6. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth"). Mae paragraff 6 o Ran 2 o'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ddarparu sylwadau cryno am ganlyniadau'r profion cenedlaethol ("y rhwymedigaeth i adrodd"). O ganlyniad i ddirymu Gorchymyn 2013 o 1 Medi 2024, mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi cyfeiriad at y Rheoliadau hyn yn lle cyfeiriad at Orchymyn 2013 ym mharagraff 6 o Ran 2 o'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau y bydd y rhwymedigaeth i adrodd yn parhau mewn perthynas â'r asesiadau personol cenedlaethol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Dim.*

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 56(1), (3) a (6), 74(1)(a) a 75(1) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021").

2. Mae Deddf 2021 yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru.

3. Mae adran 56 o Ddeddf 2021 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer asesu mewn perthynas â’r cwricwlwm perthnasol. Mae i “cwricwlwm perthnasol” yr ystyr a roddir iddo yn adran 56(5) o Ddeddf 2021. Mae adran 74(1)(a) o Ddeddf 2021 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud y cyfryw ddarpariaeth ganlyniadol y maent yn credu sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi effaith i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan Ddeddf 2021 neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o’r fath.

4. Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer asesu darllen a rhifedd yn parhau o 1 Medi 2024. Effaith y Rheoliadau hyn yw bod yr asesiadau personol cenedlaethol yn disodli'r profion cenedlaethol.

2. Drwy ymrwymiad i godi safonau llythrennedd a rhifedd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru brofion cenedlaethol statudol yn 2013. Yn 2018, dechreuodd Llywodraeth Cymru symud o brofion papur i asesiadau addasol ar-lein mewn darllen a rhifedd, a elwir yn 'asesiadau personol cenedlaethol', gyda'r bwriad o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu sgiliau. Gwnaed diwygiadau i Orchymyn 2013 i roi effaith gyfreithiol i'r newid hwn yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) (Diwygio) 2018.

   Yn dilyn hynny, gwnaeth y Rheoliadau Dirymu ddarpariaeth drosiannol a amlinellir uchod fel bod Gorchymyn 2013 yn parhau i weithio gyda'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn ystod y cyfnod y mae'n cael ei gyflwyno. Mae'r Rheoliadau Dirymu yn dirymu Gorchymyn 2013 ar 1 Medi 2024.

## 5. Ymgynghoriad

1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

2. Nid yw Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad cyn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu yn unol ag adran 56(1), (3) a (6) neu adran 74(1)(a) o'r Ddeddf honno. Yn ychwanegol, diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau parhad y trefniadau presennol ar gyfer asesu ac adrodd mewn perthynas â sgiliau darllen a rhifedd. Mae'r asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu sefyll ar lein ac yn asesu'r un sgiliau â'r profion cenedlaethol.

3. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod ceir rhai gwahaniaethau o ran y ffordd y bydd yr asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu rhoi o'i chymharu â'r ffordd y mae'r profion cenedlaethol wedi cael eu rhoi. Gwnaed y newidiadau hynny i adlewyrchu'r arferion cyfredol a lleddfu'r baich ar ysgolion wrth roi'r asesiadau. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd angen ymgynghoriad ac y byddai'n ychwanegu'n ddiangen at faich ysgolion wrth ystyried yr ymatebion.

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y gofynion ar gyfer rhoi'r asesiadau yn cyd-fynd â'r arferion cyfredol mewn ysgolion. Ni fyddant yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid na staff ysgolion eraill wneud unrhyw beth ychwanegol i'r arferion cyfredol, ac ar gyfer rhai agweddau nad ydynt bellach yn berthnasol i gyflwyno'r asesiadau ar-lein, mae'r gofynion yn cael eu dileu.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

1. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r diwygiadau hyn.

2. Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn yr achos hwn am y rhesymau canlynol:

   - Mae'r asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu sefyll ar lein ac yn asesu'r un sgiliau â'r profion cenedlaethol. Mae'r polisi y rhoddir effaith gyfreithiol iddo yn y Rheoliadau hyn yn aros yr un fath. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol, na'r ffordd y mae'r polisi'n cael ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Hynny yw, bydd yr un disgyblion yn sefyll yr un profion ar-lein yn yr un ffordd ag o'r blaen.

   - Er bod rhai gwahaniaethau o ran y ffordd y bydd yr asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu rhoi o'i chymharu â'r ffordd y mae'r profion cenedlaethol wedi cael eu rhoi, mae'r rhain yn lleihau'r baich ar ysgolion ac yn adlewyrchu'r arferion cyfredol:

     - nid yw'r Rheoliadau hyn yn cynnwys gofyniad i'r pennaeth roi'r asesiadau personol cenedlaethol yn unol ag amserlen a bennir gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn gadael y mater i ddoethineb y pennaeth, ac nid yw'n ofynnol mwyach i'r pennaeth ymgyfarwyddo â set o reolau a nodir mewn dogfen ar wahân,

     - yn wahanol i Orchymyn 2013 mae'r Rheoliadau hyn yn darparu'n benodol y caiff y pennaeth ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion sefyll yr asesiadau personol cenedlaethol o leiaf unwaith mewn blwyddyn ysgol. Nid oedd Gorchymyn 2013 yn gwahardd defnyddio'r profion ar fwy nag un achlysur, ond mae'r newid hwn yn sicrhau bod eglurder ar y mater ar wyneb y Rheoliadau,

     - nid yw'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth lofnodi datganiad i'r perwyl bod yr asesiadau personol cenedlaethol wedi cael eu rhoi yn unol â darpariaethau erthygl 6 o Orchymyn 2013. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar benaethiaid,

     - nid yw'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol fonitro gweinyddiaeth yr asesiadau personol cenedlaethol. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r baich ar awdurdodau lleol a'r ysgolion yn eu hardal, ac

- nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymchwilio i unrhyw fater a gyfeirir atynt o ganlyniad i unrhyw fonitro ar yr asesiadau personol cenedlaethol nac i gywiro canlyniadau fel y bo'n briodol. Nid oedd unrhyw achosion o gynnal unrhyw ymchwiliad o'r fath mewn perthynas â'r asesiadau personol cenedlaethol, ac felly mae'r newid hwn yn sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn adlewyrchu'r arferion cyfredol.

- Mae rhai o'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2021 mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002. Er enghraifft, nid yw Deddf 2021 yn cyfeirio at gyfnodau allweddol na phynciau a ddefnyddiwyd yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002. Defnyddiwyd y termau hynny yng Ngorchymyn 2013, ac felly roedd angen gwneud darpariaeth drosiannol yn y Rheoliadau Dirymu. Mae'r Rheoliadau hyn yn adlewyrchu terminoleg Deddf 2021 ac felly o ran y newidiadau hynny, rhai technegol yn unig ydynt.